# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 18FED MEHEFIN, 2018**

Lleoliad

**Ystafell Dwyryd**
**Canolfan Gyswllt y Cyngor**
**Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 12.06.18)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

## AELODAU CABINET

Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cyllid)

## CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL

Mr Iwan Trefor Jones

## PENNAETH CYLLID

Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

## PENAETHIAID CYNRADD

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Nefyn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Sedd Wag

## UNDEBAU ATHRAWON

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

Meirionnydd
Elen ap Gwilym – Ysgol Bro Tegid
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH

Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS

Owain Lemin Roberts (Ysgol Maesincla)

## YSGOLION ARBENNIG

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. COFNODION** 4 - 9

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2018.

(Copi'n amgaeedig)

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

- Cyllideb Addysg Anghenion Arbennig

**7. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 31/03/2018** 10 - 14

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**8. GRANTIAU YSGOLION 2018/19** 15 - 20

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**9. GRANT / CYLLIDEB GWISG YSGOL**

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod.

**10. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH** 21 - 22

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

(Copi'n amgaeedig)

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19**

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Porthmadog, ar 5 Chwefror 2018 o 10.00 a.m. hyd 11.40 a.m.**

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam - Cadeirydd**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Adnoddau)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards

**Penaethiaid Ysgolion :** Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Menna Wynne-Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn), Iona Wyn Jones (Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal), Llion Williams (Ysgol y Garnedd).

**Undebau Athrawon:** Neil Foden

**Llywodraethwyr:** Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Andrew Roberts (Ysgol Y Berwyn), Edward Bleddyn Jones (Llywodraethwr Cynradd), Elin ap Gwilym (Llywodraethwr Cynradd), Anest Gray Frazer (Yr Esgobaeth), Garem Jackson (Pennaeth Addysg).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 5 (ch) – Grant Gwisg Ysgol**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ynglyn â'r grant uchod ond bod yr Adran Addysg wedi cyflwyno bid i'r Cabinet fel rhan o'r broses o osod cyllideb y Cyngor.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**(a) Eitem 4 (c) – Talu ar Lein a Chlwb Brecwast (Clwb Gofal)**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwasnaeth Adnoddau Addysg bod y system i gadw'r llyfrau ar gyfer talu am ginio ysgol ("SIMS Dinner Money") wedi'i gyflwyno i bob ysgol.

Nodwyd bod Clwb Gofal Cyn-ysgol wedi cychwyn ar 8 Ionawr 2018 – roedd hyn wedi bod yn anodd gan fod yr ysgolion ar gau dros y Nadolig ac wedi ei gwneud yn anodd gosod cyfrifon rhieni.

Roedd y ddau gynllun sef talu am ginio a thalu am ofal yn cael eu hwyluso os gwneir taliadau ar lein gan rieni a'r mwyaf o rieni sy'n talu ar lein golyga hyn lai o waith cadw llyfrau i'r Clercod Cinio. Nodwyd bod y meddalwedd yn gwneud y cyfrif yn awtomtatig am daliadau electronig gan rieni.

Trafodwyd y materion uchod gyda Phenaethiaid Cynradd a chytunwyd bod angen hyrwyddo'r maes ymhellach ac annog mwy o rieni i dalu ar lein. Yn deillio o'r drafodaeth gyda'r Penaethiaid derbyniwyd awgrymiadau adeiladol ganddynt ynglyn â sut y gellir cael mwy i dalu ar lein.

Trefnwyd cylch hyfforddiant pellach i'r ysgolion nad oedd wedi llwyddo mynychu cyn y Nadolig ac roedd rhai ysgolion wedi nodi dymuniad i'w clercod fynychu'r hyfforddiant am yr eildro, gyda rhai Penaethiaid wedi datgan dymuniad i fynychu'r hyfforddiant hefyd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

(b) **Grant 6ed Dosbarth**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid bod gwybodaeth wedi ei dderbyn ond heb ei ryddhau i ysgolion hyd yma. Nodwyd bod lleihad yn y gyllideb a dderbynnir yn ogystal â lleihad mewn nifer cyrsiau y disgybl. Yn anffodus, am y bumed flwyddyn yn olynol, parheir i ariannu ar sail llai o ddisgyblion na'r gwir nifer sydd yn yr ysgolion. Roedd y Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Addysg wedi trafod y mater ac yn bwriadu anfon llythyr yn cyfleu eu pryder am y sefyllfa i Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod y dyraniadau grant yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y 3 mlynedd diwethaf yn hytrach na rhagweld niferoedd. Rhaid bod yn bwyllog ac yn wyliadwrus beth yw'r graddfa cwblhau ("completion rate"). Fe fydd toriad o 10% a gyfer 2019/20 a'r flwyddyn ddilynol yn waeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Grant Datblygu Disgyblion**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid bod ysgolion wedi derbyn rhagolygon a bod gwerth y grant y disgybl yn aros 'run fath â llynedd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ch) Grant Gwella Ysgolion**

Adroddodd y Rheolwr Cyllid bod y mater uchod wedi derbyn llawer o sylw ac nad oedd newyddion da o gwbl, gyda'r grant ar lefel Cymru yn lleihau £26m ac ar lefel Gogledd Cymru golygai hyn yn fras ostyngiad o oddeutu £5m. Gyda chostau yn cynnyddu gyda chwyddiant, golygai hynny oddeutu £7.5m o leihad mewn termau 'real'. Nodwyd bod oddeutu 50% o'r grant yn ymwneud

â'r Cyfnod Sylfaen, a gyda effaith y cytundebau tâl cenedlaethol, golygai ar gyfartaledd leihad i ysgolion o oddeutu 22-23% dros y ddwy flynedd nesaf.

Cyfeiriwyd at y llythyr anfonwyd i Benaethiaid Ysgolion ym mis Rhagfyr 2017 pryd nodwyd nad oedd y ffigyrau wedi newid a olygai oddeutu £600,000 o leihad yn y gyllideb yn 2018/19. Roedd y sefyllfa yn un anodd dros ben gyda'r grant yn lleihau 17% ar lefel Gogledd Cymru gyda chwyddiant yn 1%, a drwy leihad yn y grant byddai mwy o bwysau ar Ganolfannau Iaith, llwybrau dysgu 14 – 16 oed. Fe fydd Bwrdd Rheoli GwE yn penderfynu ar ddyraniad y grant ac fe sicrhawyd y byddai'r Cyngor yn dryloyw ynglyn ag unrhyw effaith i ysgolion.

O safbwynt amserlen, hyderir y byddai'r Adran Gyllid dderbyn mwy o wybodaeth yn y pythefnos nesaf

Mynegwyd bryder enfawr ymysg yr athrawon oherwydd dros y blynyddoedd roedd ysgolion wedi gorfod ymdopi gyda mwy a mwy o doriadau ac y byddai toriad o oddeutu 20% ar y Cyfnod Sylfaen yn handwyol, ac yn effeithio ar y gwasanaethau craidd.

Yn amlwg, nodwyd bod anniddigrwydd dros Gymru gyfan ynglyn â'r sefyllfa, ac nad yw yn dderbyniol, ond yn anffodus dyma yw'r gwirionedd gyda grantiau yn lleihau, a bod y sefyllfa yn gymhleth ac anodd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod, a disgwylir am wybodaeth pellach i'w anfon i Benaethiaid Ysgolion gan y Rheolwr Cyllid maes o law.**

## 5. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Cyflwynwyd tabl i'r Fforwm yn nodi sefyllfa Cytundebau Lefel Gwasanaeth am 2018-21 ar gyfer Ysgolion Cynradd, Uwchradd, Arbennig a Dilynol.

Adroddwyd fel a ganlyn:

Cynnal Tiroedd – cynigir wasanaeth am 3 blynedd ac ymwelwyd â phob ysgol i gasglu manylion gyda'r gwaith o drosglwyddo'r wybodaeth i gynllun / map o safle ysgolion yn parhau. Nodwyd nad oedd angen CLG Cynnal Tiroedd ar Ysgol Hafod Lon (newydd) tan y flwyddyn nesaf.

Uned Cefnogi Addysg – nodwyd bod gwaith o ddiffinio rôlau penodol yr Uned Gefnogi Addysg / Swyddfa Ardal yn parhau. Bwriedir parhau gyda'r un cytundeb lefel gwasanaeth am flwyddyn arall gan dreialu cefnogaeth newydd heb ddim cost ychwanegol i'r ysgolion.

Personél, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol – nodwyd bod rhai materion yn gorgyffwrdd â rôlau'r Uned Gefnogol / Swyddfa Ardal. Bwriedir parhau gyda'r un cytundeb lefel gwasanaeth am flwyddyn arall.

Bwrieidir dilyn yr un drefn â llynedd o ran cynnig y CLGau i'r ysgolion gan roi cyfle iddynt gyflwyno sylwadau a nodi os ydynt am eu derbyn neu beidio. Bwriedir cyflwyno adroddiad crynodol i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn dilyn hynny.

**Penderfynwyd: Cymeradwyo i ymestyn y cytundebau lefel gwasanaeth isod, fel a nodir uchod:**

**(a) Uned Cefnogi Addysg**
**(b) Personél, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol**

## 6. CYLLIDEB CYNGOR GWYNEDD 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod gan y Pennaeth Cyllid yn amlinellu gwybodaeth ynglŷn â chyllideb 2018/19.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Cyllid eu bod wedi treulio oriau o amser yn ceisio cael cyllideb cytbwys i'r Cyngor ac ni welwyd sefyllfa tebyg i hyn o'r blaen. Gwelwyd o'r tabl gyflwynwyd ynglyn â setliad Grant Cynnal Refeniw i ariannu llywodraeth leol y bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £1m erbyn y flwyddyn nesaf sy'n gynnydd o 0.6%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn 0.2%.

Rhagwelir yn ystod y dair blynedd 2018/19 – 2020/21 y bydd angen i'r Cyngor chwilio am arbedion o hyd at £20m. Ar hyn o bryd, gofynnir i phob Pennaeth Adran flaengynllunio toriadau o 3%, 10% a 20% a rhagwelir y bydd effaith toriadau pellach yn seiliedig ar y canrannau uchod yn erchyll, gyda'r ddwy gyllideb fwyaf y Cyngor yn Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gorfod cyfrannu.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid, wrth ddatblygu cyllideb drafft ar gyfer 2018/19, daeth yn amlwg fod yna bryder yn codi ynglyn â'r gyllideb ysgolion. Ers cyhoeddiad setliad grant awdurdodau lleol, roedd cyfeiriad Llywodraeth Cymru at "gyllid ychwanegol" a gwarchodaeth ysgolion wedi codi disgwyliadau ariannol Penaethiaid a Llywodraethwyr ar gyfer 2018/19.

Roedd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai datganiadau camarweiniol am sefyllfa ariannol ysgolion. Wedi trafodaeth gydag Aelodau Cabinet, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eleni:

**(a) Demograffi**

Nodwyd bod sefyllfa net ysgolion yn -£225,000.

**(b) Integreiddio ADY**

Argymhellir i gytuno bid o £319,000 i gyfarch gorwariant ar y gyllideb integreiddio disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac fe fydd y gyllideb "Addysg" ar ei ennill o'i gymharu â llynedd oherwydd hyn a chwyddiant o £1.4m fydd wedi'i ariannu gan y Cyngor.

**(c) Canoli Integreiddio**

Bydd £347,000 yn trosglwyddo o'r gyllideb ysgolion yn ganolog i'r Adran Addysg, a thra bydd y gyllideb ysgolion yn gostwng, bydd yr angen i ysgolion wario hefyd yn gostwng.

(ch) **Problemau Addysg**

Nodwyd bod nifer o broblemau wedi codi ym maes Addysg fyddai yn golygu bod yn rhaid i'r Cyngor ychwanegu ymhellach at y gyllideb Addysg drwy'r broses bidiau, neu i'r Adran Addysg leihau'r gyllideb ysgolion, os am gael gyllideb gytbwys yn 2018/19. Byddai cyfanswm y materion hyn wedi golygu

cynhaeafu £1.7m o arbedion o'r gyllideb ysgolion, a barn aelodau'r Cabinet ydoedd fod hynny'n anymarferol. Felly, cytunwyd i argymell y datrysiadau canlynol:

**Gwariant uwch ar gludiant £516,000**

O adael y gyllideb uchod fel ag y mae byddai'n creu'r angen am gyllid parhaol ychwanegol o £286,000 yn 2018/19 a £230,000 i gwrdd diffyg 2017/18. Argymhellir y byddir yn defnyddio tanwariant corfforaethol i ddileu gorwariant eleni, ond mynnu bod yr Adrannau Addysg ac Amgylchedd yn ail ymweld â'u polisïau / trefniadau cludiant gyda golwg ar reoli'r gwariant o fewn y gyllideb sydd ar gael erbyn 2019/20. Er mwyn prynu amser i fedru gwneud y newid, yn y cyfamser argymhellir pontio £200,000 o'r £286,000 fyddai ei angen yn 2018/19 drwy ddarparu cyllideb unwaith ac am byth, gyda'r Adran Addysg yn cwrdd â'r £86,000 sy'n weddill.

**Grant Gwella Ysgolion (EIG) £617,000**

Nodwyd bod y Gweinidog Addysg wedi torri'r grant penodol uchod a'i "osod yn y setliad" er mwyn gallu dweud nad oes disgwyl i'r gyllideb ysgolion leihau. Disgwylir i'r holl bethau sy'n cael eu hariannu drwy'r grant cael eu cynnal ond ni all yr un arian gyflawni'r ddau beth, a nodwyd bod rhwystredigaeth ymysg awdurdodau lleol Cymru ynglŷn â hyn.

Ni all y Cyngor lenwi'r bwlch yn y grant a'r cynlluniau a ariannir, felly bydd elfen berthnasol o'r cwtogiad grant yn bwydo drwodd i'r ysgolion

**Arbedion £4.3m – y £263,000 sydd ar ôl**

Yn 2014, penderfynwyd gosod targed £4.3m ar gyfer ysgolion dros y cyfnod 2015/16 – 2017/18, ac i gydweithio gyda'r Fforwm Cyllideb Ysgolion i ddatblygu cynlluniau i wireddu'r targed. Ers hynny, caniatawyd llithriad i 2018/19, pryd disgwyliwyd i'r cynlluniau ad-drefnu ysgolion gynhyrchu £263,000 olaf y targed £4.3m.

Nid yw'r arbediad yma am fod ar gael tan 2020/21 i 2021/22 ond yn hytrach na throsglwyddo'r ddiffyg i'r ysgolion (lleihau'r cwantwm dros dro) yn y cyfamser, argymhellir ail broffilio'r arbedion i'r blynyddoedd hynny.

**Casgliad ynglŷn â'r Gyllideb Ysgolion 2018/19**

Yn hytrach na dioddef £1.7m o "doriad pellach" bydd ysgolion yn ysgwyddo'r elfen berthnasol o'r £617,000 (amcangyfrif) o ostyngiad grant sy'n berthnasol iddynt, ynghyd â £347,000 o drosglwyddiad "technegol" sy'n tynnu cyllideb ac angen i wario oddi arnynt.

Deallir, bod lleihad mewn grantiau penodol eraill, a ffactorau lleol i ysgolion unigol, ond gyda'r strategaeth yma, ar y cyfan, dim ond gorfod darganfod gostyngiadau gwariant yn gyfatebol i leihad yn grantiau'r Llywodraeth fydd disgwyl i ysgolion Gwynedd wneud erbyn 2018/19.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Mynegwyd bryder am ddiffyg gwybodaeth ynglyn ag addysg anghenion arbennig ac yn benodol pa arian fydd yn cael ei drosglwyddo yn ôl i ysgolion (3 / 4 blynedd yn ôl troslwyddwyd arian ar gyfer disgyblion datganiadau 3*)

- Bod ysgolion yn awyddus i gael eglurder er mwyn iddynt fedru ymateb yn syth o ran dyletswyddau staffio a rheolaeth yr Ysgol
- Ar hyn o bryd roedd gan ysgolion nifer o unigolion ar gontractau ac os yw'r arian yn symud gall arwain at orwariant / diswyddo
- Bod sefyllfa tebyg hefo iaith ychwanegol lle mae disgyblion yn cyrraedd yn hwyr i'r ysgolion heb saesneg – ac felly nid oedd Penaethiaid yn awyddus i weld yr un sefyllfa gydag disgyblion anghenion arbennig

Mewn ymateb i'r uchod, nododd y Rheolwr Cyllid y byddai'n trefnu i'r swyddogion perthnasol anfon llythyr o eglurder i ysgolion yn ddi-oed. Ategodd y Pennaeth Cyllid y dylai Uwch Reolwr yr Adran Addysg gyfleu gwybodaeth i'r ysgolion yn amserol ar gyfer cynllunio lefelau staffio perthnasol.

O safbwynt cynyddu Treth Cyngor 4.8%, nododd yr Aelod Cabinet Cyllid bod rhaid wynebu'r cynnydd hynny os am amddiffyn gwasanaethau. Nodwyd ymhellach bod cynllun ar gyfer cymorth i unigolion anghennus a bod staff yr Adran Gyllid yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi.

Adroddodd yr Aelod Cabinet Addysg bod gwariant ychwanegol ar gludiant yn her i'r Adran Addysg, a bod angen trafod telerau mwy ffafriol hefo contractwyr cludiant.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid drefnu bod y swyddogion addysg priodol yn anfon eglurder i ysgolion yn ddi-oed ynglyn â chyllideb a staff addysg anghenion arbennig.**

## 7. RHAGOLWG BALANSAU YSGOLION 31 Mawrth 2018

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Cyllid i godi ymwybyddiaeth y Fforwm Cyllideb Ysgolion o ragolwg balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2018.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan nodi mai ymarferiad pen desg gan yr Adran Gyllid oedd gerbron gan nad oedd yn ymarferol bosibl cysylltu â thrafod gyda phob ysgol yn unigol o fewn yr amserlen. Fe fyddir yn cyflwyno gwir ffigyrau yng nghyfarfod nesaf y Fforwm yn ystod tymor yr haf.

Nodwyd bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch Ysgolion Tywyn a'r Berwyn ynglŷn â'u diffyg ariannol. Cydnabuwyd ymhellach o'r ysgolion sydd gyda balansau negyddol bod yr Adran Gyllid yn parhau i gydweithio gyda'r ysgolion hynny.

Pwysleiswyd bod arian y balansau ar gael i'r disgyblion cyfredol sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y rhagolygon ac edrychir ymlaen i dderbyn adroddiad pellach yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.**

**<u>CADEIRYDD</u>**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **18 Mehefin 2018** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2017/18** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2017/18</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2018 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2018 -

| | canran | 31/03/2017 | agor ysgol Bro Idris | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2018 | canran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 5.57% | £2,018,515 | -£10,593 | +£735,122 | £2,743,044 | 7.92% |
| Dilynol | - | - | +£171,395 | +£253,977 | £425,372 | 13.05% |
| Uwchradd | 2.42% | £816,787 | -£160,802 | +£237,710 | £893,695 | 2.80% |
| Arbennig | 1.54% | £43,230 | - | -£86,863 | -£43,633 | -1.30% |
| **Cyfanswm** | **3.96%** | **£2,878,532** | **£0** | **+£1,139,946** | **£4,018,478** | **5.49%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi cynyddu +£1,139,946 yn ystod 2017/18 i £4,018,478 sy’n cyfateb i 5.49% o’u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 6 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2017/18 gwerth -£306,393 o’i gymharu gydag 17 ar ddiwedd 2016/17 gwerth -£420,471.

- 2 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg -£7,891 (-£1,794 a -£6,097)
- 3 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg -£173,691 (amrywio rhwng -£5,719 a -£118,938)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg -£124,811

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Dilynol, Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 15 ysgol gynradd (amrywio rhwng £1,385 a £64,372 uwchben y trothwy)
- 1 ysgol ddilynol (£325,372 uwchben y trothwy)
- 4 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £9,107 a £170,928 uwchben y trothwy)

## 3. Casgliad

3.1 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £1,285,447 (44 ysgol) ar 31/03/2017 i £1,838,398 (67 ysgol) ar 31/03/2018.

3.2 Gwerth y Grant Refeniw Cynnal a Chadw Llywodraeth Cymru ar gyfer y 67 ysgol sydd gyda balansau dros 5% ar 31/03/2018 yw £360,833.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**

# Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2018

Eitem 7 Atodiad 1

| | | A | B | C | CH | D | DD | E | F | er gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Dyraniad Terfynol 2017/18 | Balansau 31/03/2018 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2018 | Cyfanswm Balansau dros 5% 31/03/2018 | Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k 31/03/2018 | Grant Refeniw Cynnal a Chadw Llywodraeth Cymru Mawrth 2018 |
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | £45,577 | £512,712 | 10.32% | £52,915 | £27,280 | £2,915 | £5,850 |
| | 2 | 2004 | Nefyn | £24,609 | £515,952 | 4.36% | £22,489 | | | £5,690 |
| | 3 | 2006 | Llanrug | £22,253 | £816,910 | 4.80% | £39,204 | | | £8,482 |
| | 4 | 2008 | Abererch | £11,470 | £274,957 | 13.84% | £38,058 | £24,310 | | £4,467 |
| * | 5 | 2009 | Abersoch | £4,166 | £133,109 | 5.86% | £7,805 | £1,149 | | £3,004 |
| * | 6 | 2010 | Beddgelert | £11,326 | £160,383 | 18.23% | £29,241 | £21,222 | | £3,084 |
| | 7 | 2011 | Bethel | £8,333 | £521,624 | 4.89% | £25,484 | | | £5,770 |
| | 8 | 2013 | Bodfeurig | £21,256 | £232,706 | 7.96% | £18,534 | £6,898 | | £4,148 |
| | 9 | 2015 | Borthygest | £11,338 | £235,900 | 16.98% | £40,061 | £28,266 | | £4,227 |
| | 10 | 2017 | Brynaerau | £19,021 | £258,054 | 15.05% | £38,828 | £25,926 | | £4,174 |
| | 11 | 2026 | Y Gelli | £30,976 | £678,350 | 5.67% | £38,452 | £4,535 | | £7,179 |
| | 12 | 2028 | Penybryn | £71,576 | £487,863 | 13.46% | £65,652 | £41,259 | £15,652 | £6,275 |
| | 13 | 2033 | Treferthyr | £18,945 | £430,998 | 8.78% | £37,838 | £16,288 | | £5,265 |
| * | 14 | 2035 | Cwm Y Glo | £11,276 | £167,085 | 10.83% | £18,102 | £9,747 | | £3,270 |
| | 15 | 2036 | Chwilog | £547 | £196,017 | -3.11% | -£6,097 | | | £3,642 |
| | 16 | 2039 | Crud Y Werin | £123 | £245,174 | 1.61% | £3,936 | | | £4,121 |
| | 17 | 2042 | Dolbadarn | £87,506 | £574,780 | 14.92% | £85,755 | £57,016 | £35,755 | £6,222 |
| | 18 | 2046 | Edern | £36,403 | £267,989 | 10.72% | £28,721 | £15,322 | | £4,387 |
| * | 19 | 2047 | Felinwnda | £7,716 | £162,912 | 16.52% | £26,916 | £18,771 | | £3,243 |
| | 20 | 2048 | Bro Plennydd | £1,418 | £297,380 | 3.03% | £9,012 | | | £4,360 |
| | 21 | 2049 | Garndolbenmaen | £9,915 | £201,864 | 10.59% | £21,387 | £11,294 | | £3,882 |
| | 22 | 2051 | Glanadda | £19,025 | £257,958 | 14.33% | £36,977 | £24,079 | | £4,041 |
| * | 23 | 2059 | Llanaelhaearn | -£1,431 | £178,354 | 11.61% | £20,703 | £11,785 | | £3,057 |
| | 24 | 2060 | Llanbedrog | £9,672 | £295,034 | 3.67% | £10,842 | | | £4,334 |
| | 25 | 2066 | Llangybi | £8,944 | £209,685 | 6.31% | £13,230 | £2,746 | | £3,855 |
| | 26 | 2069 | Llanllechid | £6,943 | £804,859 | 2.96% | £23,846 | | | £8,057 |
| | 27 | 2070 | Llanllyfni | £59,558 | £324,617 | 18.97% | £61,574 | £45,343 | £11,574 | £4,600 |
| * | 28 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | £19,313 | £190,459 | 11.01% | £20,974 | £11,451 | | £3,350 |
| * | 29 | 2078 | Baladeulyn | -£2,219 | £170,471 | 8.80% | £15,009 | £6,486 | | £3,190 |
| * | 30 | 2081 | Nebo | £13,191 | £169,285 | 3.17% | £5,365 | | | £3,190 |
| | 31 | 2085 | Penisarwaen | £8,795 | £212,203 | 6.22% | £13,200 | £2,590 | | £3,749 |
| | 32 | 2089 | Bro Lleu | £26,412 | £626,676 | 7.53% | £47,185 | £15,851 | | £6,647 |
| | 33 | 2093 | Pentreuchaf | £5,297 | £446,502 | 5.23% | £23,352 | £1,027 | | £5,238 |
| * | 34 | 2097 | Rhiwlas | -£3,927 | £221,002 | 5.00% | £11,048 | | | £3,509 |
| * | 35 | 2098 | Rhosgadfan | -£2,087 | £199,252 | 3.88% | £7,730 | | | £3,642 |
| | 36 | 2099 | Rhostryfan | -£4,536 | £301,915 | 4.90% | £14,807 | | | £4,600 |
| | 37 | 2103 | Sarn Bach | £28,095 | £186,912 | 12.01% | £22,448 | £13,103 | | £3,855 |
| | 38 | 2104 | Eifion Wyn | £22,458 | £712,489 | 4.49% | £32,020 | | | £6,967 |
| | 39 | 2108 | Talysarn | £50,777 | £407,752 | 14.00% | £57,079 | £36,691 | £7,079 | £4,706 |
| | 40 | 2110 | Y Gorlan | £47,886 | £361,119 | 14.74% | £53,213 | £35,157 | £3,213 | £4,546 |
| | 41 | 2111 | Yr Eifl | £26,642 | £240,981 | 17.11% | £41,240 | £29,191 | | £3,775 |
| | 42 | 2112 | Tudweiliog | -£2,765 | £202,563 | 8.91% | £18,046 | £7,918 | | £3,775 |
| | 43 | 2113 | Waunfawr | £4,241 | £460,440 | 6.21% | £28,573 | £5,551 | | £5,371 |
| | 44 | 2116 | Glancegin | £122,484 | £812,348 | 14.08% | £114,372 | £73,755 | £64,372 | £7,153 |
| * | 45 | 2118 | Bab Coed Mawr | £52,500 | £182,046 | 18.31% | £33,331 | £24,229 | | £3,110 |
| | 46 | 2119 | Yr Hendre | -£1,080 | £1,433,869 | 1.47% | £21,045 | | | £11,115 |
| | 47 | 2122 | Bontnewydd | £30,648 | £608,019 | 6.18% | £37,549 | £7,148 | | £6,169 |
| | 48 | 2123 | Y Garnedd | £19,123 | £1,028,715 | 4.51% | £46,370 | | | £9,786 |
| | 49 | 2125 | Cymerau | £57,450 | £1,103,107 | 5.85% | £64,552 | £9,397 | £14,552 | £9,599 |
| | 50 | 2126 | Abercaseg | £13,178 | £443,344 | 7.25% | £32,163 | £9,996 | | £4,573 |
| | 51 | 2127 | Y Felinheli | £4,599 | £565,297 | 2.66% | £15,052 | | | £6,169 |
| | 52 | 2180 | Bala | £17,433 | £401,288 | 10.40% | £41,721 | £21,657 | | £5,371 |
| | 53 | 2181 | Traeth | £37,057 | £709,821 | 7.24% | £51,385 | £15,894 | £1,385 | £7,153 |
| | 54 | 2185 | Corris | £18,888 | £272,357 | 7.37% | £20,079 | £6,462 | | £4,041 |
| | 55 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | £41,715 | £257,282 | 15.90% | £40,902 | £28,038 | | £4,174 |
| | 56 | 2190 | Bro Cynfal | £4,644 | £292,459 | 6.64% | £19,428 | £4,805 | | £4,121 |
| * | 57 | 2192 | Edmwnd Prys | £3,713 | £208,807 | 8.35% | £17,425 | £6,985 | | £3,403 |
| | 58 | 2194 | Llanbedr | £16,384 | £226,949 | 10.56% | £23,965 | £12,617 | | £3,749 |
| * | 59 | 2198 | Y Garreg | £12,403 | £164,201 | 9.81% | £16,102 | £7,892 | | £3,270 |
| | 60 | 2199 | O.M.Edwards | £24,696 | £326,789 | 10.57% | £34,551 | £18,212 | | £4,812 |

# Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2018



| | | A | B | C | CH | D | DD | E | F | er gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2017 | Dyraniad Terfynol 2017/18 | Balansau 31/03/2018 fel % o'r Dyraniad | Balansau 31/03/2018 | Cyfanswm Balansau dros 5% 31/03/2018 | Cyfanswm Balansau dros £50k neu £100k 31/03/2018 | Grant Refeniw Cynnal a Chadw Llywodraeth Cymru Mawrth 2018 |
| | 61 | 2205 | Manod | £49,201 | £382,377 | 18.64% | £71,260 | £52,141 | £21,260 | £4,679 |
| * | 62 | 2207 | Pennal | £3,803 | £171,666 | 4.60% | £7,889 | | | £3,164 |
| | 63 | 2208 | Cefn Coch | £25,055 | £574,210 | 7.85% | £45,104 | £16,394 | | £6,302 |
| | 64 | 2210 | Talsarnau | -£5,761 | £204,642 | 6.28% | £12,853 | £2,621 | | £3,749 |
| | 65 | 2211 | Tanygrisiau | -£9,812 | £307,983 | 4.43% | £13,632 | | | £4,413 |
| | 66 | 2212 | Penybryn | £27,322 | £744,537 | 5.43% | £40,399 | £3,172 | | £7,658 |
| | 67 | 2213 | Bro Hedd Wyn | £28,991 | £253,034 | 6.05% | £15,312 | £2,660 | | £4,254 |
| | 68 | 2214 | Frongoch | £48,704 | £175,806 | 25.68% | £45,144 | £36,354 | | £3,828 |
| | 69 | 2219 | Tan y Castell | £15,263 | £290,004 | 4.41% | £12,791 | | | £4,201 |
| | 70 | 2220 | Ffridd y Llyn | £23,084 | £258,019 | 23.13% | £59,689 | £46,788 | £9,689 | £4,201 |
| | 71 | 2221 | Maenofferen | £31,821 | £749,781 | 5.69% | £42,638 | £5,149 | | £7,206 |
| | 72 | 2227 | Hirael | £38,166 | £561,284 | 4.81% | £27,025 | | | £6,195 |
| | 73 | 2228 | Craig y Deryn | £4,774 | £456,847 | 2.74% | £12,530 | | | £5,078 |
| | 74 | 2229 | Bro Llifon | £19,557 | £478,637 | 8.40% | £40,198 | £16,266 | | £5,477 |
| | 75 | 3004 | Pont y Gôf | £65,171 | £384,257 | 15.93% | £61,217 | £42,004 | £11,217 | £5,078 |
| | 76 | 3005 | Maesincla | £97,763 | £1,155,109 | 8.08% | £93,329 | £35,574 | £43,329 | £8,722 |
| | 77 | 3009 | Faenol | £40,761 | £690,625 | 11.04% | £76,217 | £41,685 | £26,217 | £7,312 |
| * | 78 | 3010 | Foelgron | £5,891 | £171,395 | 9.70% | £16,628 | £8,058 | | £3,483 |
| | 79 | 3013 | Llandygai | £82,911 | £533,580 | 10.83% | £57,774 | £31,095 | £7,774 | £5,983 |
| | 80 | 3018 | Llandwrog | £26,882 | £228,015 | 12.24% | £27,898 | £16,498 | | £3,961 |
| * | 81 | 3023 | Llanystumdwy | -£2,063 | £179,441 | 3.49% | £6,255 | | | £3,217 |
| | 82 | 3029 | Tregarth | £36,904 | £392,024 | 8.50% | £33,326 | £13,725 | | £4,892 |
| | 83 | 3030 | Cae Top | £4,869 | £784,835 | -0.23% | -£1,794 | | | £7,472 |
